

Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru: Cofnodion y Cyfarfod

CGGC (WCVA), Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
 Dydd Gwener 13 Rhagfyr 2019 – 9:30-12:30

Yn bresennol			
Patience	Bentu	PB	Race Council Cymru
Rhodri	Bowen	RB	Pobl a Gwaith
Lewis	Clark	LC	RSPCA Cymru
Mal	Colley	MC	Gofal Canser Tenovus
David	Cook	DC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Aaron	Fortt	AF	Llywodraeth Cymru
Gwennan	Hardy	GH	Cyngor ar Bopeth
Gronw	ab Islwyn	Gal	Gofal Canser Tenovus
David	James	DJ	Galluogi Tai Gwledig Sir Fynwy
Eleri	James	EJ	Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
Glyn	Jones	GJ	Llywodraeth Cymru
Hade	Turkman	HT	Chwarae Teg
Ginger	Wiegand	GW	Grŵp Cymorth i Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig
Cyflwynwyr			
Scott	Clifford	SC	Llywodraeth Cymru
Sam	Collins	SCo	Llywodraeth Cymru
Emily	Stidston	ES	Swyddfa Ystadegau Gwladol
John	Fuery	JF	Llywodraeth Cymru
Elinor	Shepley	ESh	Sefydliad Materion Cymreig
Anna	Nicholl	AN	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ymddiheuriadau			
Nick	Lewis	NL	Umbrella Cymru
Rob	Roffe	RR	Y Gronfa Loteri Fawr
Victoria	Ward	VW	Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Victoria	Winckler	VWi	Sefydliad Bevan

1	Croeso a Phapurau	Glyn Jones, Llywodraeth Cymru
<p>Nododd GJ ymddiheuriadau ar ran y rheini nad oeddent yn bresennol, a dosbarthodd bapurau copi caled gan egluro nad fu'n bosibl eu cyhoeddi a'u dosbarthu ymlaen llaw oherwydd yr etholiad cyffredinol.</p> <p>Trafodwyd y Cylchlythyr Chwarterol ar Ystadegau. Soniodd GJ am y pwyntiau canlynol yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith ar asesu'r angen am arolwg pellach o gyflyrau tai • Cais am adborth ynghylch sut y defnyddir adroddiad Llesiant Cymru • Tudalen StatsCymru ar gyfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus <p>Trafodwyd y Cylchlythyr Demograffeg. Tynnodd GJ sylw at y ffaith mai dyma'r tro cyntaf i ostyngiad yn y boblogaeth genedlaethol gael ei ragfynegi yn ystod y cyfnod diweddar.</p> <p>Trafodwyd adroddiad Llesiant Cymru, a nododd GJ y pwyntiau canlynol yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y newidiadau y bwriedir eu gwneud i ddangosyddion ynglŷn ag ansawdd swyddi yng ngoleuni gwaith y Comisiwn Gwaith Teg • Ehangu'r dangosydd bwch cyflog i gynnwys rhywedd/ethnigrwydd a llawn-amser/rhan-amser etc. • Rhyddhau cwestiynau peilot dangosydd 46, er mwyn canfod pa mor gyfrifol y mae pobl ar lefel fyd-eang. • Pennu cerrig milltir cenedlaethol - bydd Swyddfa Cabinet Llywodraeth Cymru yn tynnu grwpiau ynghyd i ddatblygu'r cerrig milltir hyn. Y grwpiau i ddechrau trafod yn 2020. <p>Cwestiwn RB: O ran hyd Arolwg Cenedlaethol Cymru, a'r amser y mae'n ei gymryd i'w gwblhau, a yw pobl yn ateb yn briodol neu a ydynt yn rhuthro i'w orffen erbyn y diwedd?</p> <p>Eglurodd GJ nad yw hyd yr arolwg yn newid wrth i ragor o gwestiynau gael eu hychwanegu – gan fod eraill yn cael eu dileu er mwyn sicrhau nad yw'r arolwg yn mynd yn rhy hir. Gall y rhan fwyaf o bobl gwblhau'r arolwg mewn oddeutu 30-40 munud.</p> <p>Cafodd Ymarfer y Cyfrifiad ei drafod, a dosbarthwyd sleidiau gan Neil Townsend, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).</p> <p>Trafodwyd y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r Cyfrifiad nesaf, a gynhelir ym mis Mawrth 2021, yn cael eu cyflwyno ar-lein, a'r targed oedd cael 75% o ymatebion drwy'r dull hwnnw • Cafwyd ymateb da i'r ymarfer a gynhaliwyd yng Ngheredigion • Mae'n debygol y bydd y SYG yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i drafod yr ymarfer a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol <p>Cwestiwn RB: Ai Cyfrifiad 2021 fydd yr un olaf?</p> <p>Eglurodd GJ mai dyma fyddai'r olaf o'i fath. Mae'r dull a ddefnyddir i greu'r Cyfrifiad yn newid gan fod cynlluniau i ddefnyddio data gweinyddol ar gyfer gwneud argymhellion yn y dyfodol, ac felly mae'n debygol y bydd unrhyw gyfrifiad a gynhelir yn 2031 yn wahanol iawn i'r fersiwn a ddefnyddir yn 2021.</p>		

2	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)	Scott Clifford a Sam Collins, Llywodraeth Cymru
<p>Y ffordd orau o ddefnyddio MALIC yw ar gyfer nodi'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae'n rhoi'r ardaloedd yn nhrefn eu hamddifadedd cymharol, gan ddefnyddio dros 40 o ddangosyddion ar draws 8 maes. Mae pob ardal yn cynnwys oddeutu 1600 o bobl.</p> <p>Cwestiwn DJ: A yw'r ffiniau wedi newid ers y MALIC diwethaf? Eglurodd SC nad yw'r ffiniau wedi newid, gyda'r ardaloedd allbwn presennol yn seiliedig ar gyfrifiad 2011. Cytunir ar newidiadau i ffiniau yn seiliedig ar sgysiau gydag awdurdodau lleol a'r SYG, ac mae'n debygol y bydd fersiwn nesaf MALIC ychydig yn wahanol yn sgil yr adolygiad o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a arweinir gan y Cyfrifiad.</p> <p>Eglurodd SCo na all defnyddwyr ddefnyddio'r rhestrau yn nhrefn amddifadedd i edrych ar lefelau amddifadedd neu newidiadau dros gyfnod o amser, gan fod y mesurau'n gymharol. Mae mesurau wedi cael eu pwysoli i reoli sut y maent yn bwydo i mewn i'r mesur cyffredin. Rhoddir mwy o bwysoliad ar gyfer incwm a chyflogaeth nag mewn ardaloedd eraill.</p> <p>Cwestiwn LC: Sut mae pwysoliadau'n cael eu cyfrifo? Eglurodd SC fod pwysoliadau'n cael eu seilio ar ddau ffactor; effeithiolrwydd y data o ran mesur amddifadedd ac ansawdd y data. Mae'r pwysoliadau'n seiliedig ar gyngor a geir gan grwpiau maes, ac yn ddelfrydol bydd pwysoliadau'n parhau'n gymharol sefydlog.</p> <p>Eglurodd SC ac SCo yr hyn y dylid ei wneud a'r hyn na ddylid ei wneud o ran dadansoddi gan ddefnyddio MALIC, gan ddweud nad yw'n bosibl cymharu ar draws gwledydd y DU gan fod methodoleg yn amrywio rhwng gwledydd. Mae'r gwaith ymgynghori a wnaed i adolygu mesurau a data a ddefnyddir ar gyfer MALIC wedi arwain at ddiweddarau data ym mron pob un o'r dangosyddion. Gan mwyaf, mae'r fethodoleg yn parhau'r un fath ag yr oedd ar gyfer fersiwn 2014, gyda dim ond amrywiadau mân yn y pwysoli cymharol a ddefnyddir.</p> <p>Darlun cyffredin o MALIC – mae pocedi lle y ceir lefel uchel o amddifadedd cymharol yng nghymoedd a dinasoedd y De, a nifer o drefi yn y Gogledd, ar y ffin ac ar yr arfordir.</p> <p>Cwestiwn DJ: Sut y pennir safle yn y drefn ar y rhestr ar gyfer ardaloedd sydd â'r un canlyniadau neu ganlyniadau tebyg. Eglurodd SC fod y dangosydd yn cael ei gyfrifo fel canran i lawer o leoedd degol ac felly ei bod yn bosibl pennu safle gan ei fod yn annhebygol iawn y byddai canrannau'n union yr un fath. Wrth edrych yn fanylach ar y data, mae'r gromlin yn mynd yn fwy serth ar lefelau amddifadedd uwch, felly canolbwyntir ar yr ardaloedd hyn yn bennaf.</p> <p>Cwestiwn HT: A yw'r data ar lefel aelwyd neu ar lefel yr unigolyn, ac a yw cymariaethau o ran rhywedd ac ethnigrwydd yn bosibl? Eglurodd SC bod cyfrifo'n digwydd ar lefel yr unigolion, ac felly y byddai potensial y gellid dadansoddi yn ôl rhywedd/ethnigrwydd mewn perthynas â dangosyddion.</p> <p>Bellach, mae dangosyddion iechyd yn mesur cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau cronig. Hwn fydd y tro cyntaf i'r data hyn gael eu defnyddio yn dilyn</p>		

llawer o waith sicrhau ansawdd. Mae marwolaethau cyn pryd hefyd yn cael eu mesur fel rhan o'r dangosyddion iechyd.

Cwestiwn DJ: A fyddai cymariaethau rhwng oedran a rhywedd mewn dangosydd iechyd yn bosibl?

Eglurodd SCo fod dangosyddion iechyd yn cael eu cyfrifo drwy safoni yn ôl oedran/rhywedd (ar wahân i ddangosyddion sy'n ymwneud â phlant), ond y gallai rhywfaint o ddadansoddi fod yn bosibl.

Bellach mae'r dangosyddion addysg yn cynnwys y sgoriau pwynt cyfartaledd newydd Cyfnod Allweddol 4 a phobl ifanc sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 gan symud i addysg uwch. Yn y gorffennol roedd hyn yn cael ei ddarparu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, ond bellach mae'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio data cyfatebol.

Mae dangosyddion ar gyfer mynediad at wasanaethau'n dangos bod lefel uchel o amddifadedd ar draws ardaloedd gwledig, a hefyd bod nifer o bocedi mewn ardaloedd trefol.

Cwestiwn DJ: Mae ardal benodol (Llantillio Crosseny) bellach yn is i lawr yn y drefn ar y rhestr, beth sydd gennych i'w ddweud am hynny?

Eglurodd SC bod hyn yn golygu bod yr ardal yn llai difreintiedig o safbwynt cymharol. Fodd bynnag, byddai angen edrych yn fanylach ar y data dangosyddion y mae hyn yn seiliedig arnynt er mwyn gweld beth oedd y rheswm y tu ôl i'r newid hwn.

Cwestiwn LC: A yw'r dangosydd ar gyfer mynediad at wasanaethau'n cynnwys mynediad at wasanaethau milfeddygaeth?

Eglurodd SC fod y dangosydd ar hyn o bryd yn cynnwys mynediad at bethau y mae'r rhan fwyaf o bobl am gael mynediad atynt. Gellid ystyried unrhyw wasanaethau eraill posibl i'w cynnwys yn y MALIC nesaf. Gofynnodd GJ a oedd set o ddata sy'n cynnwys practisau milfeddygon. Awgrymodd JF y byddai gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon gronfa ddata o bractisau milfeddygon cofrestredig.

Cwestiwn GW: Ar hyn o bryd, y mesur yw'r pellter y mae'n rhaid teithio i wasanaethau. A fyddai'r mesur yn gallu dangos a yw pobl yn cael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt?

Eglurodd SC bod data'n gyfyng, ac nad yw'n hawdd cael mynediad at y lefelau hyn o gymhlethdod, ond y gallai hynny fod yn rhywbeth i'w drafod yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r dangosydd tai yn edrych ar amodau byw, a pha mor yw hi i gael cartref, gan gynnwys pa mor debygol fyddai peryglon, adeiladau mewn cyflwr gwael, a bod gormod o bobl ar gyfer y gofod sydd ar gael.

Cwestiwn GH: A yw cynnwys y dangosydd ar gyfer cyflwr gwael adeiladau wedi newid y canlyniad ers y tro diwethaf?

Eglurodd SCo fod y dangosydd yn canolbwyntio ar beryglon ychydig yn fwy nag ar y data cyflwr gwael, ac felly mae'n anodd dweud. Mae newidiadau ar gael yn yr adroddiad, ond pe bai angen mwy o fanylion, byddai'n rhaid edrych yn fanylach ar y data cefndir.

Cwestiwn AF: A yw'r bylchau rhwng y rhai mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yn cau? Beth yw hyn yn ei ddweud o safbwynt polisi?

Eglurodd SC y byddai angen edrych yn fanwl ar y data na chanolbwyntir arnynt ar hyn o bryd, er mwyn inni allu bod yn sicr. Caiff rhywfaint o amser ei dreulio ar hyn cyn bo hir, nawr bod y canlyniadau cyffredinol wedi cael eu cyhoeddi.

	<p>Cwestiwn RB: A oes dogfen ar gael i'w lawrlwytho sy'n cynnwys canlyniadau sydd wedi cael eu dadansoddi yn ôl dangosyddion sy'n adlewyrchu ystod o amser, ac sydd wedi eu cynnwys mewn un dogfen yn hytrach na bod rhywun yn gorfod dod o hyd iddynt ar wahân er mwyn eu tynnu ynghyd.</p> <p>Atebodd GJ y byddai'n bosibl cynhyrchu rhywbeth fel hyn. Ychwanegodd SC fod y gymhariaeth ar gyfer 2014-2017 ar gael ar StatsCymru. Ar hyn o bryd, byddai StatsCymru yn cynhyrchu set newydd o dablau pan fyddai blwyddyn newydd yn cael ei chyhoeddi, yn hytrach nag yn ôl cyfres amser.</p> <p>Wedyn, dangosodd SCo nodweddion amrywiol adnodd rhyngweithiol MALIC, gan dynnu sylw at sut i ddefnyddio'r mapiau a sut yr oedd mapiau heddiw'n dangos mwy o fanylion nag yr oeddent yn y gorffennol.</p>	
3	Cydraddoldebau	Scott Clifford a John Fuery, Llywodraeth Cymru
	<p>Trafododd GJ sut yr oedd am wella gwaith yn y maes hwn ar draws y timau i gyd. Wedyn trafododd SC yr hyn sy'n sbarduno gwelliant, y gwelliannau sydd wedi eu gwneud o ran yr ystadegau sydd ar gael ar hyn o bryd, a sut y mae data cydraddoldebau'n gwella ar draws Cymru gyfan.</p> <p>Dangosodd JF fersiwn alffa o adnodd canfod data StatsCymru, gan drafod y rhesymau y tu ôl i sut yr oedd wedi ei ddylunio a'r wybodaeth a'r swyddogaethau pellach a fydd yn cael eu hychwanegu atynt.</p>	<p>Cam gweithredu: Sue Leake a JF i gyhoeddi fersiwn alffa, gan anfon y ddolen at unrhyw aelodau o'r panel defnyddwyr sydd â diddordeb er mwyn cael adborth ac arweiniad ar sut i symud ymlaen.</p>
4	Deall Lleoedd Cymru	Elinor Shepley, Sefydliad Materion Cymreig
	<p>Mae'r wefan yn seiliedig ar ymchwil gan Ymddiriedolaeth Carnegie, ac mae wedi cael ei sbarduno gan brinder data manwl am drefi a chymunedau llai. Mae wedi cael ei hariannu gan Carnegie yn bennaf, a gan Lywodraeth Cymru (yn anuniongyrchol). Mae'r wefan yn cynnwys data ar lefel tref/cymuned ac mae iddi ryngwyneb hawdd ei ddefnyddio ac mae data ychwanegol ar gael ar gyfer ardaloedd lle mae 2000+ o breswylwyr (191 o leoedd).</p> <p>Mae'r wefan wedi ei thargedu at bobl sydd â llai o hyfforddiant digidol, a'r nod yw darparu ffordd hawdd o gymharu hyd at chwe lle ar yr un pryd o ran amrywiaeth o fesurau a gwybodaeth. Mae'n caniatáu i'r defnyddiwr ddewis dadansoddi rhwng saith categori lle neu ddata ychwanegol ar sut y mae lleoedd yn dibynnu ar leoedd eraill am eu hasedau.</p> <p>Mae dangosyddion yn cael eu cymharu â phoblogaethau cymharol y lleoedd, a gall cymunedau rannu ymchwil a chynlluniau i'w hychwanegu at y data.</p> <p>Mae'r wefan yn cynnwys amrywiaeth o fapiau, delweddau a siartiau a fydd yn ddefnyddiol i sefydliadau'r trydydd sector gan y byddant yn aml yn gweithio ar lefel leol.</p>	
5	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – mesur ein heffaith	Anna Nichol, CGGC
	Eglurodd AN fod angen i'r Trydydd Sector a'r sector gwirfoddoli fod yn gryfach ac yn sectorau sy'n ennyn ymddiriedaeth. Er mwyn sicrhau hynny, mae angen rhoi sylw i'r lleihad presennol o ran ymddiried mewn elusennau ac asiantaethau gwirfoddoli, gan greu sefydliadau cadarn sy'n gallu addasu ac sy'n cael eu llywodraethu'n effeithiol.	

<p>Dyweddod AN fod y sefydliad yn ystyried y ffordd orau o fesur y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r nodau, ac aeth ymlaen i ofyn cwestiwn i'r ystafell:</p> <p>Pa ddata sy'n cael eu cyhoeddi eisoes y gellid eu defnyddio i fesur hyn?</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn edrych ar y dangosyddion canlynol fel ffordd o fesur ei effaith:</p> <p>Cyflogaeth Gwirfoddolwyr Gwerth oriau gwirfoddoli (pe bai arian yn cael ei dalu am y gwaith) Sefydliadau trydydd sector Incwm a amcangyfrifir yn y trydydd sector.</p> <p>Awgrymiadau: GJ – Data Arolwg Cenedlaethol – y posibilrwydd o gynnwys cwestiynau ychwanegol ynglŷn â gwirfoddoli RB – ffactorau allanol sy'n effeithio ar gynnydd o ran cyflawni targedau ES – i ba raddau y mae sefydliadau trydydd sector yn gweithredu fel sefydliadau angori o fewn cymunedau? DJ – gwirfoddoli yn y sector chwaraeon, megis Chwaraeon Cymru, Undeb Rygbi Cymru HT – arolwg o ansawdd bywyd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith gweithwyr mewn sefydliadau trydydd sector? GJ – Byddai arolwg cenedlaethol yn gallu holi'r 28% o bobl sy'n dweud eu bod yn gwirfoddoli. A ydyn nhw'n gyflogedig? Pwy ydyn nhw? Beth sy'n eu gyrru? etc.</p>	
<p>6 Eitemau ar gyfer Agenda yn y dyfodol a dyddiad y cyfarfod nesaf</p>	<p>Glyn Jones, Llywodraeth Cymru</p>
<p>Siaradodd GJ am y cynlluniau gwirfoddoli dadansoddol sydd ar gael gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol, gan drafod gweminar yr oedd wedi ei mynychu'n ddiweddar. Roedd yn annog y rheini a oedd yn bresennol i edrych ar sut y gallai fod o fudd i'w sefydliadau. Dywedodd GJ fod ystadegydd cenedlaethol newydd wedi ei benodi ers y cyfarfod diwethaf.</p>	<p>Cam gweithredu: GJ anfon sleidiau o weminar gwirfoddoli dadansoddol (Rhagfyr 2019)</p>
<p>7 Unrhyw fater arall</p>	<p>Glyn Jones, Llywodraeth Cymru</p>
<p>Ni chodwyd unrhyw fater o bwys. Diolchodd GJ i bawb a oedd yn bresennol cyn cloi'r cyfarfod.</p>	

<p align="center">Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru 13 Rhagfyr 2019 Crynodeb o Bwyntiau Gweithredu</p>		
<p>1</p>	<p>Sue Leake a JF i gyhoeddi fersiwn alffa, gan anfon y ddolen at unrhyw aelodau o'r panel defnyddwyr sydd â diddordeb er mwyn cael adborth ac arweiniad ar sut i symud ymlaen.</p>	<p>Sue Leake a John Fuery</p>
<p>2</p>	<p>GJ anfon sleidiau o weminar gwirfoddoli dadansoddol (Rhagfyr 2019)</p>	<p>Glyn Jones</p>